BYWGRAFFIAD ARTIST

Kieron-Connor Valentine

Counter-Tenor

Artist Manager: Sioned Jones
sioned.jones@harlequin-agency.co.uk

Yn enillydd o'r Bath Opera Isobel Buchanan Award 2019, mae'r uwch-denor Kieron-Connor Valentine newydd ddechrau'r Cwrs Opera yn Ysgol Gerdd a Drama'r Guildhall yn Llundain. Roedd eisoes wedi cyflawni cwrs Meistr mewn Cerddoriaeth yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd, ac wedi graddio o'r cwrs Baglor mewn Cerddoriaeth, Astudiaethau Lleisiol, yn y Royal Northern College of Music, Manceinion.

Yn ddiweddar, bu'n dirpwryo rhan **Mago Cristiano** yn Rina*l*do gan Handel ar gyfer taith Hydref Glyndebourne Touring Opera.Yn ystod ei amser yn y coleg perfformiodd **L'humana fragilita** yn *Il ritorno in patri d'Ulisse;* Monteverdi dan arweiniad Roger Hamilton; **Oberon** yn *A Midsummer Night's Dream* Britten, dan arweiniad Andrew Greenwood ac, yn fwyaf diweddar, **Didymus** yn *Theodora,* Handel dan arweiniad Roger Hamilton. Yn 2018 fe wnaeth Kieron-Connor ymuno â rhaglen Britten-Pears Aldeburgh Festival fel **Didymus** yn *Theodora.*

Yn ystod haf 2017 fe recordiodd Kieron drac sain i ffilm Operatig Gymreig newydd, comisiwn gan Opera Genedlaethol Cymru ac S4C, a gyfansoddwyd gan Stephen McNeff yn seiliedig ar bardd y Rhyfel Byd Cyntaf, Hedd Wyn.

Mae ei uchafbwyntiau cyngerdd yn cynnwys cyflwyno datganiad o gerddoriaeth y Dadeni a Baroque yn Cadogan Hall, Chelsea fel rhan o'r gyfres London Master Class; teithio ledled y DU gyda'r Military Wives a'i début yn Proms y BBC fel **The Lost Boy** yn *The Water Diviners Tale*, dan arweiniad David Charles Abell. Mae wedi perfformio Offeren Beethoven yn C fwyaf dan arweiniad Ian Chesworth yn St. Michael and All Saints Church, Macclesfield; Messiah, Handel dan arweiniad Owen Roberts yn Eglwys St. Giles, Wrecsam; The Armed Man gan Syr Karl Jenkins dan arweiniad Owen Roberts yn Neuadd William Aston, Wrecsam; Carmina Burana, Karl Orff dan arweiniad Richard Lea yn y Metropolitan Cathedral, Lerpwl a Chichester Psalms, Bernstein dan arweiniad John Powell yn Neuadd Gyngerdd y Royal Northern College of Music, Manceinion.

Mae llwyddiant diweddar yn cynnwys Gwobr Goffa Douglas Rees Canwr Opera Ifanc y Flwyddyn, Cystadleuaeth MOCSA Canwr Ifanc y Flwyddyn (Cymdeithas Cefnogwyr Côr Orpheus Treforys) 2018 a Chanwr Ifanc Cymreig Dunraven 2018. Dros y blynyddoedd mae Kieron wedi ennill teitlau Southport Singer of the Year; Liverpool Singer of the Year; Canwr Ifanc y Flwyddyn y Stiwt a Gwobr 'Liverpool's Most Promising Singer of the Year'.

Rydym yn diweddaru'n bywgraffiadau yn gyson, felly cysylltwch â ni am y fersiwn ddiweddaraf, os gwelwch yn dda.